

Camau case study: Entry

Astudiaeth achos Camau: Mynediad

Terri Steele

About Terri

Amdano Terri

Terri has been working as a registered childminder in Ceredigion for 3 years. She currently cares for a total of 11 children ranging from 15 months to 9 years. Terri's first language is English, and she learnt Welsh whilst at primary school, so understands the benefit of learning Welsh at a young age. She is happy to converse in Welsh with the children in her care throughout the day but finds conversing with the adults more challenging. Although she understands what is being said she sometimes struggles to find a particular word in Welsh. In addition, Terri lacked confidence writing in Welsh and felt there was lots of room for improvement, particularly with grammar and mutations. However, Care Inspectorate Wales (CIW) commended Terri on her use of the Welsh Language in her recent inspection and said,

“
| *This service is working towards providing an 'Active Offer' of the Welsh language and demonstrates a significant effort to promoting the use of the Welsh language and culture.* |
—”

Mae Terri wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant cofrestredig yng Ngheredigion ers 3 blynedd. Ar hyn o bryd mae hi'n gofalu am gyfanswm o 11 o blant yn amrywio o 15 mis i 9 oed. Saesneg yw iaith gyntaf Terri, a dysgodd Gymraeg tra yn yr ysgol gynradd, felly mae'n deall budd dysgu Cymraeg yn ifanc. Mae hi'n hapus i sgwrsio yn Gymraeg gyda'r plant yn ei gofal trwy gydol y dydd ond mae sgwrsio gyda'r oedolion ychydig yn anoddach. Er ei bod yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud mae hi weithiau'n cael trafferth dod o hyd i air arbennig yn Gymraeg. Yn ogystal, roedd diffyg hyder gan Terri i ysgrifennu yn Gymraeg a theimlai fod llawer o le i wella, yn enwedig gyda gramadeg a threigladau. Fodd bynnag, canmolodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Terri am ei defnydd o'r Gymraeg yn ei harolygiad diweddar a dywedodd:

“
| *Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' i'r Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.* |
—”

Reasons for taking up the Camau training

Rhesymau dros cymryd lan yr hyfforddiant Camau

Terri decided to take up the Camau training as she lives in a Welsh speaking area and having grown up there herself, she understands the importance of using the Welsh language in the community. She believes that her confidence in using the Welsh Language has increased through exposure and being reminded to use the language as much as possible in her everyday practice.

“*If you have a second language it can sometimes be a case of ‘use it or lose it’, and as I’m working through the courses it’s a constant reminder to use it! I am using more Welsh within my setting because I’m thinking about it more often and I think having a goal helps with that.*”

Penderfynodd Terri ymgymryd â hyfforddiant Camau gan ei bod yn byw mewn ardal Gymraeg ei hiaith ac wedi tyfu i fyny yno ei hun, mae’n deall pwysigrwydd defnyddio’r Gymraeg yn y gymuned. Mae hi’n credu bod ei hyder i ddefnyddio’r Gymraeg wedi cynyddu drwy ddod i gysylltiad a chael ei hatgoffa i ddefnyddio’r iaith cymaint â phosibl.

“*Os oes gennych ail iaith gall weithiau fod yn achos o ‘ei defnyddio neu ei cholli’, gan fy mod yn gweithio drwy’r cyrsiau mae’n atgof cyson i’w defnyddio! Dwi’n defnyddio mwy o Gymraeg o fewn fy lleoliad achos dwi’n meddwl am hyn yn amlach a dwi’n meddwl bod cael nod yn helpu gyda hynny.*”



Training influencing practice

Hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer

I already felt fairly confident in my speaking skills with children, but because I'm doing the Welsh promise journey and the Camau course it does mean it's more at the forefront of my mind. Therefore, I'm remembering to use my Welsh even with the children who don't speak Welsh at home and it's encouraging me to think more creatively about ways of bringing Welsh into our daily routines. For example, using Welsh resources and singing Welsh songs.

To support Terri with using the Welsh Language in her day-to-day life as a childminder and to recognise her hard work in promoting the Welsh Language, PACEY Cymru shared with her a Welsh book pack which included a variety of Welsh and bilingual books on a wide range of topics. She is able to use these to support and extend the learning experiences of the children in her care.

Roeddwn i eisoes yn teimlo'n weddol hyderus yn fy sgiliau siarad gyda phlant, ond oherwydd fy mod yn gwneud y daith addewid Cymraeg a'r cwrs Camau mae'n golygu ei fod yn fwy blaenllaw yn fy meddwl. Felly, dwi'n cofio defnyddio fy Nghymraeg hyd yn oed gyda'r plant nad yw'n siarad Cymraeg gartref ac mae'n fy annog i feddwl yn fwy creadigol am ffyrdd o ddod â'r Gymraeg i'n trefn dyddiol. Er enghraifft, defnyddio adnoddau Cymraeg a chanu caneuon Cymraeg.

Er mwyn cefnogi Terri i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei bywyd o ddydd i ddydd fel gwarchodwr plant ac i gydnabod ei gwaith caled yn hyrwyddo'r Gymraeg, rhannodd PACEY Cymru becyn llyfrau Cymraeg gyda hi, yn cynnwys 9 llyfr ar ystod eang o bynciau. Maent yn gallu defnyddio'r rhain i gefnogi ac ymestyn profiadau dysgu'r plant yn ei gofal.





Terri regularly attends Forest School sessions in her local area which she feels benefits the children. Since completing the Camau courses she has translated the welcome song, which they now sing every week. In addition to this, she also taught the group the song "Lili Wen Fach". Not only is she having a positive impact on the Welsh Language development on the children in her care but also the children attending Forest Schools in her area.

Since completing the Camau courses Terri noted that the parents had noticed her ability to hold a conversation through the medium of Welsh had improved and she was becoming more confident speaking Welsh to them.

*I think the more we learn
the more it ripples out
into our communities.*

*Rwy'n meddwl po fwyaf y
byddwn yn ei ddysgu, y
mwyaf y mae'n crychdonni
ein cymunedau.*

Mae Terri'n mynychu sesiynau Ysgol Goedwig yn ei hardal leol yn rheolaidd ac mae'n teimlo ei bod o fudd i'r plant. Ers cwblhau'r cyrsiau Camau mae hi wedi cyfieithu'r gân groeso, y maent bellach yn ei chanu bob wythnos. Yn ogystal â hyn, bu hefyd yn dysgu'r gân "Lili Wen Fach" i'r grŵp. Nid yn unig y mae hi'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg ar y plant yn ei gofal ond hefyd y plant sy'n mynychu Ysgolion Coedwig ei hardal.

Ers cwblhau'r cyrsiau Camau nododd Terri fod y rhieni wedi sylwi bod ei gallu i gynnal sgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gwella a'i bod yn dod yn fwy hyderus yn siarad Cymraeg â nhw.

Continuing her learning Parhau i ddysgu

Terri's goal is to be able to offer a fully bilingual setting, meaning all her policies and procedures, information and documents are able to be offered in both English and Welsh.

Terri is currently completing the Silver Welsh Promise with PACEY Cymru and part of the requirement is to complete the Camau course. She was already aware of the course as she had previously seen information about it on the Cwlwm website.

I want to be able to communicate with parents about their children in their preferred language.

Rwyf am allu cyfathrebu â rhieni am eu plant yn eu dewis iaith.

Nod Terri yw gallu cynnig lleoliad cwbl ddwyieithog, sy'n golygu bod ei holl bolisiau a gweithdrefnau, gwybodaeth a dogfennau yn gallu cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Terri ar hyn o bryd yn cwblhau'r Addewid Cymraeg lefel Arian gyda PACEY Cymru, a rhan o'r gofyniad yw cwblhau'r cwrs Camau. Roedd hi eisoes yn ymwybodol o'r cwrs gan ei bod wedi gweld gwybodaeth amdano o'r blaen ar wefan Cwlwm.

Thinking about accessing the Camau training? Here's what

Terri has to suggest:

Meddwl am gael mynediad i hyfforddiant Camau? Dyma beth sydd gan Terri i'w awgrymu:

“
I think if you are learning a language, it's one thing understanding the language but another thing using it in real life so once you learn the vocabulary it's really important to practice in real life with real people as much as possible. I have Welsh speaking childminder friends who I do my best to talk Welsh with because I don't feel silly and can ask if I get something wrong!

I liked that the Camau course is self-study. It's quick and easy to jump on and do a few units whenever you have the time. The grammar/vocabulary sheets and top tips at the start and end of units are really useful to refer back to.

”

“
Os wyt ti'n dysgu iaith, mae'n un peth deall yr iaith ond peth arall yn ei defnyddio hi mewn bywyd go iawn, felly unwaith yr wyt yn dysgu'r eirfa mae'n bwysig iawn ymarfer mewn bywyd go iawn gyda phobl go iawn, cymaint â phosib. Mae gen i ffrindiau gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg ac rydw i'n gwneud fy ngorau i siarad Cymraeg gyda nhw oherwydd dydw i ddim yn teimlo'n wirion ac yn gallu gofyn a ydw i'n gwneud rhywbeth yn anghywir!

Roeddwn i'n hoffi bod cwrs Camau yn gwrs hunan-astudio. Mae'n gyflym ac yn hawdd neidio ymlaen a gwneud ychydig o unedau pryd bynnag y bydd gennych yr amser. Mae'r taflenni gramadeg/geirfa ac awgrymiadau da ar ddechrau a diwedd unedau yn ddefnyddiol iawn i gyfeirio'n ôl atynt.

”



If you'd like further information or would like to register for the Camau courses, please get in touch with PACEY Cymru on 02920 351407 or paceycymru@pacey.org.uk

Os hoffech ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer y cyrsiau Camau, cysylltwch â PACEY Cymru ar 02920 351407 neu paceycymru@pacey.org.uk

